Non

Dad



Sam



Mam

Jac

Darllen a Deall gyda Sam

Mae'r gyfres hon yn dysgu plant i ddarllen, deall ac ymateb i'r hyn y maent wedi ei ddarllen.

Yn y gyfres mae pymtheg o storïau bywiog, ysgafn a dymunol sy'n dilyn hynt a helynt cymeriad o'r enw Sam, ei deulu, ei ffrind Non a Jac ei gi bach.

Mae pum copi o bob llyfr yn y pecyn er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddarllen gyda'i gilydd, ar goedd, ar y cyd ac mewn grŵp dan arweiniad athro/athrawes neu gymhorthydd. Mae'r storïau wedi eu rhannu yn dair rhan er mwyn galluogi'r plant i ganolbwyntio ar y manylion sydd yn y testun, ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd yn bwyllog trwy ateb cyfres o gwestiynau syml o fewn sesiwn ddarllen ddyddiol.

Mae adnoddau ychwanegol i atgyfnerthu'r dysgu y tu mewn i'r pecyn hwn. Hefyd, gallwch lawrlwytho adnoddau sy'n cyd-fynd a'r gyfres oddi ar ein gwefan:

www.dysgugydasam.co.uk

Nodweddion y gyfres

- Ar ddechrau pob stori mae adran sy'n rhoi cyfle i'r plant ymarfer strategaethau darllen sy'n cynnwys cyfle i ddysgu darllen geiriau hir ac anodd, hynny yw, sillafoli, a deall ystyr geiriau cyn iddynt ddod ar eu traws yn y testun.
- Cyfle i ddysgu synau llythrennau a gweld cyfuniadau mewn geiriau ac i ddatgodio geiriau.
- Cyfle i ddeall nodweddion stori syml.
- Cyfle i ddysgu sut i godi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r testun ac i ateb cwestiynau syml trwy ddewis yr ateb cywir o nifer o ddewisiadau.
- Cyfle i ddod o hyd i'r rhannau pwysig sy'n dangos am beth mae'r testun yn sôn.
- Cyfle i adalw a dwyn i gof fanylion o'r testun ac ail ddarllen a darllen ymlaen.

Ar ddiwedd pob stori mae adran fechan sy'n rhoi cyfle i'r plant drafod a meithrin eu sgiliau llafar trwy ymarfer defnyddio patrymau brawddegol syml sy'n cysylltu eu profiadau personol â'r digwyddiadau yn y storïau.

Mae agweddau hanfodol o ddysgu darllen yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol yn sylfaen i'r gyfres hon.

Pethau pwysig i'w cofio

- **Adnodd ar gyfer dysgu grwpiau o blant yn bennaf yw'r pecyn hwn. Gellir ei ddefnyddio gydag unigolion os oes ganddynt angen cymorth dwysach na'r arfer.**
- **Mae'n hanfodol bod oedolyn yn arwain y gweithgareddau darllen.**
- **Mae angen i'r sawl sy'n arwain ennyn brwdfrydedd y plant tuag at ddarllen a chynnal eu diddordeb wrth iddynt ddysgu sut i godi gwybodaeth o destun a'i ddehongli.**

Sut i fynd ati

Cam 1

Dewiswch stori addas o'r gyfres ar gyfer y plant. Mae'r storïau wedi eu graddio'n ofalus yn ôl y nifer a'r math o eiriau sydd ynddynt. Dechreuwch trwy drafod y stori gyda'r plant. Tynnwch sylw at y teitl, y lluniau a'r cymeriadau. Gadewch i'r plant ragfynegi a dyfalu beth sy'n mynd i ddigwydd yn y stori ac anogwch hwy i chwilio am gliwiau. Yna darllenwch y stori gyfan iddynt er mwyn modelu'r dull o'i darllen yn gywir.

Cam 2

Ewch at y rhestr o eiriau anghyfarwydd sydd yn y testun ar ddechrau'r llyfr. Dangoswch i'r plant sut i ddefnyddio'r strategaethau ffonig posibl i ddarllen y geiriau. Rhowch gyfle iddynt ymarfer eu datgodio. Sicrhewch fod y plant yn cael cyfle i hunan gywiro ac i ail-ddarllen hyd nes y byddant yn gallu darllen yn hyderus. Hefyd manteisiwch ar y cyfle i sicrhau bod y plant yn gwybod ystyr geiriau. Mae hwn yn gyfle da i esbonio ystyr geiriau anghyfarwydd.

Cam 3

Mae tair rhan i bob stori. Gadewch i'r plant ddarllen y stori gan ganolbwyntio ar un rhan ar y tro. Cynigiwch arweiniad a chymorth os oes angen. Chi fel oedolyn fydd yn arwain y plant drwy'r cwestiynau ar ddiwedd y darn. Anogwch y plant i chwilio am yr atebion yn y testun. Cwestiynau i'w hateb ar lafar yw'r rhain i gyd. Os ydych yn dymuno i'r plant gofnodi eu hatebion a gweithio yn annibynnol mae'n bosibl defnyddio taflenni arbennig sydd yn y pecyn.

Cam 4

Cymerwch y cyfle i drafod testun y stori yn fwy cyffredinol. Rhowch gyfle i'r plant fynegi barn ynglŷn â'r digwyddiadau. Ceisiwch annog y plant i uniaethu gyda'r cymeriadau ac i gysylltu cynnwys y stori â'u profiadau personol. Gofynnwch i'r plant lunio brawddegau eu hunain trwy efelychu'r patrymau sydd wedi eu hawgrymu o dan y pennawd 'trafod testun'. Mae hwn yn gyfle i loywi iaith.

Cam 5

Os ydych yn dymuno i'r plant ymateb i'r storïau ymhellach trwy gofnodi ar bapur, defnyddiwch y taflenni gwaith sydd yn y pecyn. Mae nifer o dasgau ysgrifennu, arlunio a lliwio wedi eu paratoi ar eich cyfer.

Darllen geiriau hir ac anghyfarwydd

Gall darllen geiriau newydd, hir, anghyfarwydd sy'n cynnwys nifer o sillafiadau fod yn anodd. Er hynny, mae'n bosib ei gwneud hi'n haws i'w darllen trwy eu rhannu yn ddarnau bach, byr.

Darllen geiriau unsill

Rhowch amser i egluro sut mae datgodio geiriau yn gweithio trwy eu rhannu fesul sŵn/sain y llythrennau unigol, cyn eu cyfuno i greu geiriau.

Dangoswch sut i wneud hyn trwy swnio pob llythyren mewn gair ar y tro, ac yna ynganwch/darllenwch y gair i gyd.

b-a-t = bat c-a-r = car

Darllen geiriau dau/thrisill

Dechreuwch trwy egluro i'r plant beth yw sill. Dangoswch sut i rannu geiriau deusill a thrisill ac yn y blaen, drwy roi llinell rhwng y sillafiadau neu drwy guddio rhannau o'r gair â'ch bysedd.

teganau	afalau
teg-an-au	af-al-au

Awgrymiadau

Os yw plentyn yn ceisio darllen gair anghyfarwydd unsill defnyddiwch eich bys i bwyntio at y llythyren sydd angen ei darllen. Bydd hyn yn helpu'r plentyn i dorri'r gair i synau unigol ac yn ei alluogi i'w ddarllen a'i ynganu'n gywir.

Gyda geiriau hir anogwch y plentyn i ddilyn rhythm a churiad wrth ymarfer. Mae'n bosib i'r plentyn gyfri sawl gwaith y mae'r geg yn agor wrth iddo ynganu'r gair; bydd yn cyfateb i'r nifer o sillafiadau yn y gair.

Defnyddiwch y cardiau fflach sydd yn y pecyn. Mae'r rhain wedi eu paratoi er mwyn eich galluogi i roi'r geiriau cyfan a'r geiriau a llinellau rhwng y sillafiadau cefn wrth gefn.

Gêm 1

Gosodwch y cardiau fflach sydd yn y pecyn ar y bwrdd a gofynnwch i'r plant eu dosbarthu yn ôl sawl sill sydd yn y geiriau. Penderfynwch pa ochor i'r cerdyn sy'n addas h.y. y gair cyfan neu'r gair wedi ei rannu.

Gêm 2

Gofynnwch i'r plant ysgrifennu rhestrau o eiriau unsill, deusill a thrisill o fewn cyfyngiad amser.

Gêm 3

Argraffwch dwy set o gardiau a chwaraewch gêm 'snap' gan ddarllen y geiriau os ceir pâr ohonynt yn ymddangos gyda'i gilydd.

Cyfuno llythrennau

Pan mae dwy lafariad neu ddwy gytsain yn ymddangos mewn trefn o fewn gair gellir eu cyfuno i greu un sŵn llyfn, cyfunol.

Er enghraifft

'tr' yn y gair 'tr-ê-n'
yn hytrach na 't-r-ê-n'

'aw' yn y gair 'm-aw-r'
yn hytrach na 'm-a-w-r'

O weld y cyfuniadau cyffredin hyn o lythrennau yn aml fe ddaw'r plentyn i'w darllen yn rhwydd gyda'i gilydd. Gweler isod esiamplau o gyfuniadau sy'n ymddangos yn aml o fewn geiriau.

Cytseiniaid clwm

bl, br, chw, cl, cr, dr, ffl, ffr, gl, gr, nt, pl, pr, sg, sm, st, tr

Llafariaid clwm

ae, ai, au, aw, ei, oe, wy, ew, eu, ia, ie, io, ow, iw, yw, wa, wi, wy

Awgrymiadau

Dangoswch a darllenwch y rhestrau o eiriau sydd â chyfuniadau o lythrennau ynddynt ar ddechrau'r llyfr.

Chwiliwch am y geiriau hyn yn y stori. Gall y plant ysgrifennu rhestr ohonynt os ydych yn dymuno.

Defnyddiwch y cardiau fflach sydd yn y pecyn i chwarae gemau syml er mwyn ymarfer darllen y geiriau a dysgu eu hadalw yn gyflym.

Gêm 1

Rhoi'r cardiau â geiriau arnynt a'u pennau i lawr ar y bwrdd. Troi'r cardiau trosodd fesul dau er mwyn casglu parau o eiriau sydd â'r un math o gyfuniadau o lythrennau arnynt. Y plentyn sydd â'r mwyaf o barau sy'n ennill.

Gêm 2

Pan mae'r cyfuniad o lythrennau yn digwydd ar ddechrau gair gellir ceisio creu brawddegau sy'n cynnwys cyflythreniadau ynddynt a rhieni'n rhai doniol os yn bosibl! e.e. Rhaid trio chwythu trwyn y trên trwm.

Gêm 3

Gadewch i'r plant syllu ar restr o eiriau am funud neu ddau (defnyddiwch amserydd, os yn bosibl) er mwyn ceisio eu cofio i gyd. Yna cuddiwch y geiriau a rhowch gyfle i'r plant eu dwyn i gof. Fe allwch chi neu'r plant ysgrifennu'r rhestr.